# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Orme House**

**Tŷ Gwyn Road**
**Llandudno**
**LL30 2QR**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Orme House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Potensial Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Tachwedd 2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael ac maent yn hapus yn byw yn y cartref. Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl ac yn cael strategaethau clir o ran sut y dylid darparu gofal a chymorth iddynt. Mae pwyslais cryf ar annog a gwella annibyniaeth y bobl ymhellach a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o'u dewis. Mae proses cyn derbyn ar waith sy'n asesu ac yn ystyried a yw pobl yn gydnaws â'i gilydd, a defnyddir y wybodaeth i lywio'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg. Mae'r bobl yn gwybod sut i godi pryderon ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r meysydd blaenorol a nodwyd fel meysydd i'w gwella ers yr arolygiad diwethaf.

Mae digon o le yn y cartref ac mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli. Caiff gwiriadau cynnal a chadw a gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau. Mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau recriwtio diogel ac mae staff gofal newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Mae'r staff gofal yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a roddir gan y rheolwr newydd, ac maent yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, a chaiff archwiliadau ac adroddiadau monitro ansawdd eu cwblhau.

## Llesiant

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Mae system gweithwyr allweddol ar waith ac mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl pan fo angen. Gwelsom fod y bobl yn gyfforddus ac yn gartrefol yn yr ardaloedd cymunedol ac yn eu hystafelloedd gwely cysurus. Fe'u gwelsom yn cymdeithasu ac yn helpu ei gilydd wrth baratoi bwyd. Mae darparwr y gwasanaeth yn hyrwyddo annibyniaeth y bobl mewn modd rhagweithiol ac mae'r bobl yn gwerthfawrogi hynny. Dywedodd y bobl wrthym, *“I’m really independent and don’t need much help from staff”*, *“I can go where I want and do what I want to do”*, a *“Staff are really nice, they listen to me if I’m not happy”*.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl ac mae darparwr y gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Caiff eu hanghenion o ran llesiant corfforol, llesiant emosiynol a llesiant iechyd meddwl eu hystyried, a chaiff unrhyw ofal, triniaeth a chyngor meddygol a geir eu cofnodi yn y ffeiliau gofal. Mae rhai aelodau o'r staff gofal yn siarad Cymraeg yn rhugl, a chaiff diwylliant Cymru ei ddathlu. Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried cryfhau'r 'cynnig rhagweithiol' a ddarperir ganddo drwy sicrhau bod y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg. Dylai darparwr y gwasanaeth gyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru ‘Mwy na Geiriau: Y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' i gael rhagor o wybodaeth.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau diogelu perthnasol ar waith. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau recriwtio manylach. Mae'r staff gofal yn gwybod pwy y dylent roi gwybod iddynt am bryderon a dywedwyd wrthym nad oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch a llesiant y bobl. Wrth wneud cwyn neu benderfyniad am eu gofal, gall y bobl gael cymorth a chyngor drwy'r staff gofal, eu teuluoedd neu gynrychiolwyr, gwasanaethau comisiynu a gwasanaeth eirioli annibynnol.

Caiff y bobl eu hannog i fyw bywyd iach ac i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol a gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn y gymuned. Cânt eu hannog i fwyta deiet amrywiol a chytbwys, ac i wneud ymarfer corff fel cerdded a reidio beic. Mae'r bobl yn annibynnol ac yn dewis y math o weithgareddau corfforol a hamdden y maent am gymryd rhan ynddynt, am ba hyd ac ar ba lefel. Mae'r staff gofal yn cefnogi gweithgareddau arferol y bobl o ddydd i ddydd sy'n cynnwys cyflawni nodau a chanlyniadau a nodwyd er mwyn meithrin eu sgiliau byw'n annibynnol ymhellach.

Mae'r llety yn addas ac yn cefnogi ac yn hybu llesiant y bobl. Mae eu hystafelloedd gwely yn cynnwys eitemau personol sy'n bwysig iddynt ac mae cyfleusterau ar gael iddynt sy'n annog ac yn meithrin eu sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r gwiriadau iechyd a diogelwch

perthnasol yn cael eu cwblhau, ac mae tîm cynnal a chadw darparwr y gwasanaeth yn ymgymryd â'r gwaith atgyweirio a gwella a nodir.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn nodi sut y dylid darparu gofal a chymorth i'r bobl a sut y gellir cyflawni canlyniadau personol. Mae'r wybodaeth a gesglir gan yr awdurdod lleol sy'n comisiynu a'r darparwr gofal iechyd, cyn i'r bobl gyrraedd y gwasanaeth, yn llywio proses cyn derbyn y gwasanaeth. Caiff cynllun personol cychwynnol ac asesiadau risg dilynol eu cwblhau. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal a'r trafodaethau â'r staff gofal yn tynnu sylw at gynlluniau personol y bobl ac maent yn rhoi arweiniad ynghylch sut i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl y bobl. Mae'r rheolwr wrthi'n adolygu dogfennau'r ffeiliau gofal. Mae darparwr y gwasanaeth hefyd wrthi'n adolygu ac yn datblygu asesiad y darparwr.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau y gwrandewir ar y bobl. Weithiau, gall fod yn anodd i rai o'r bobl gyfleu eu hanghenion a'u dewisiadau i'r tîm staff gofal, gan fod eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl wedi dirywio. Caiff y bobl eu cefnogi mewn ffordd dosturiol yn ystod cyfnodau o'r fath. Yn ôl yr hyn a welwyd, mae'r staff gofal yn deall dewisiadau'r bobl mewn perthynas â'u gofal iechyd personol, eu hanghenion cymorth, eu harferion a'u hymddygiad. Mae system gweithwyr allweddol yn helpu'r bobl i gymryd rhan weithredol yn eu trefniadau gofal a chymorth dyddiol ac yn annog y bobl i fynegi eu barn. Mae'r Canllaw diweddaraf i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn cynnwys manylion gwasanaeth eirioli annibynnol a gweithdrefn gwyno darparwr y gwasanaeth. Gall y bobl gysylltu â'u teuluoedd/cynrychiolwyr ac ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ôl yr angen hefyd.

Gall y bobl gael gafael ar gyngor a chymorth priodol er mwyn hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal a thrafodaethau â'r bobl a'r staff gofal yn nodi bod y bobl yn cael gofal meddygol a thriniaeth yn brydlon pan fo angen. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn annibynnol a byddant yn trefnu ac yn mynychu eu hapwyntiadau meddygol eu hunain, ond gallant hefyd gael cymorth gan y staff gofal. Caiff cyngor a geir yn ystod ymgyngoriadau iechyd a gwybodaeth am driniaethau eu cofnodi yn y ffeiliau gofal a'u cyfleu i'r tîm staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar feddyginiaethau a chaiff meddyginiaethau a ragnodir eu storio'n ddiogel. Mae'r bobl yn cymryd eu meddyginiaethau eu hunain, a chaiff y wybodaeth ei chofnodi ar y siartiau sy'n rhan o'u cofnodion rhoi meddyginiaeth. Bydd y rhan fwyaf o'r bobl yn archebu ac yn casglu eu meddyginiaethau eu hunain a bydd y staff gofal yn eu helpu os bydd angen. Caiff archwiliadau ac asesiadau risg eu cwblhau bob wythnos mewn perthynas â meddyginiaethau.

Mae gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban perthnasol ar waith. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a gallant gael gafael ar bolisïau diogelu a chwythu'r chwiban darparwr y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r tîm rheoli am unrhyw bryderon a'u bod yn hyderus y byddai'n ymdrin â nhw mewn ffordd sensitif a phriodol. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch neu lesiant y bobl. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal yn dangos bod asesiadau risg yn cael eu diweddaru pan gaiff materion diogelu eu codi a bod darparwr y gwasanaeth yn ymateb i bryderon pobl yn unol â'r weithdrefn gwyno. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflwyno hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau diogelu hysbysadwy.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref yn darparu llety ar gyfer hyd at 14 o bobl mewn eiddo sengl mawr. Mae'r cartref wedi'i leoli mewn tref sy'n cynnwys siopau, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau iechyd cyhoeddus. Gwnaethom edrych ar rai o'r ystafelloedd yn y cartref ac, ar y cyfan, roeddent yn ymddangos yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae digon o seddau yn y lolfeydd sy'n cynnig cyfleoedd i'r bobl gymdeithasu â'i gilydd neu gael amser tawel. Roedd cyfarpar amrywiol yn y gegin a'r ystafell amlbwrpas er mwyn hybu sgiliau byw'n annibynnol y bobl. Mae ystafell chwaraeon hefyd ar gael lle gall y bobl gymdeithasu a chwarae pŵl a dartiau a defnyddio'r cyfarpar codi pwysau. Mae cyfleusterau ensuite yn ystafelloedd gwely rhai o'r bobl, ac roedd yr eitemau ynddynt yn addas ar gyfer lefel anghenion yr unigolyn dan sylw. Mae eu hystafelloedd gwely hefyd yn cynnwys eitemau personol sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym, *"I've got my own room, I like it, got my own things in there"* ac *"I've got pictures of my family and the things I like to collect."*

Caiff yr ardd y tu allan ei chynnal a'i chadw'n dda ac mae siediau newydd wedi cael eu prynu'n ddiweddar. Mae ardal lle gall y bobl gadw eu beiciau ac ardal smygu awyr agored ar wahân hefyd. Nifer cyfyngedig o leoedd parcio sydd ar gael ar safle'r eiddo ei hun, ond mae digon o leoedd parcio i'r staff gofal ac ymwelwyr ar y ffordd gyfagos.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau. Adeg cyrraedd y cartref, roedd y fynedfa wedi'i chau'n ddiogel, gofynnwyd i ni gadarnhau ein manylion adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r trefniadau diogelwch tân. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn rhoi gwybod i dîm cynnal a chadw darparwr y gwasanaeth pan fo angen gwneud gwelliannau i rannau o'r cartref, a gwnaethant gadarnhau fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau'n gyflym. Dywedodd y rheolwr wrthym hefyd fod darparwr y gwasanaeth yn barod i gefnogi buddsoddiadau ariannol ac i wneud gwelliannau yn y cartref pan fo angen. Mae darparwr y gwasanaeth wedi recriwtio glanhawr llawn amser hefyd. Mae'r cofnodion

ysgrifenedig yn cadarnhau bod materion sy'n gysylltiedig â phrofi cyfarpar a dyfeisiau trydanol a chynnal gwiriadau diogelwch tân a gwiriadau o dymheredd y dŵr poeth a'r dŵr oer yn gyson dda a'u bod yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn cael ei storio'n ddiogel hefyd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith a gall y staff gofal gael gafael ar gynnyrch glanhau, cyfarpar diogelu personol a pholisi rheoli heintiau darparwr y gwasanaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i weithredu'r gwasanaeth ac i sicrhau y caiff y bobl ofal a chymorth o ansawdd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi creu strwythur haenog ar gyfer yr uwch-dîm rheoli sy'n sicrhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cael ei gynnwys a'i fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol. Mae rheolwr y gwasanaeth wedi newid ddwywaith ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r rheolwr newydd yn gymharol newydd yn ei swydd ond mae'n gyfarwydd â'r gwasanaeth gan iddo ymgymryd â rôl y rheolwr am gyfnod byr pan oedd y rheolwr blaenorol yn absennol. Mae'r rheolwr hefyd wedi gweithio i ddarparwr y gwasanaeth mewn rolau eraill am nifer o flynyddoedd a dywedodd wrthym fod yr uwch-dîm rheoli yn ei gefnogi. Dywedodd wrthym fod yr uwch-dîm rheoli yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am benderfyniadau gweithredol a'i fod yn fodlon ar y lefel o gymorth a roddir iddo a'r broses gyfathrebu rhyngddynt.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn glir ac yn ymweld yn rheolaidd. Mae hefyd yn llunio adroddiad bob tri mis. At hynny, mae rheolwr ardal darparwr y gwasanaeth yn cwblhau archwiliadau monitro ansawdd misol ar y cyd â'r rheolwr er mwyn goruchwylio dogfennaeth allweddol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod tasgau yn cael eu cwblhau a'u hadolygu ac y caiff meysydd i'w gwella eu nodi. Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal eu cwblhau bob chwe mis ac mae tîm Sicrhau Ansawdd lleol yr Awdurdod Lleol sy'n comisiynu gwasanaethau yn ymweld â'r cartref. Mae'r Datganiad o Ddiben a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd. Atgoffwyd darparwr y gwasanaeth o bwysigrwydd cyflwyno'r Datganiad o Ddiben i AGC mewn modd amserol pan fydd trefniadau staffio yn newid.

Mae niferoedd priodol o staff gofal addas a chymwys ar gael. Dengys y rota staffio fod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion a threfniadau'r gwasanaeth

comisiynu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus â'r patrwm shifftiau a'u bod yn cwblhau shifftiau ychwanegol pan fydd prinder staff ar y rota. Yn ogystal, defnyddir aelod o staff asiantaeth i ymateb i unrhyw absenoldebau staff gofal nas rhagwelwyd. Mae darparwr y gwasanaeth yn dilysu geirdaon cyflogaeth ac yn cwblhau gwiriadau recriwtio staff manwl. Mae aelodau newydd o'r staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu darparwr y gwasanaeth yn ogystal â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant. Yn gyffredinol, roedd cofnodion goruchwylio'r staff yn dangos bod sesiynau goruchwylio yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd y sesiynau goruchwylio wedi cael eu cynnal fel y bwriadwyd, ac roedd y tîm rheoli wedi nodi'r enghreifftiau hyn cyn yr arolygiad hwn. Yn ôl yr hyn a welsom, nid oedd hyn wedi cael effaith negyddol ar y gofal a'r cymorth a roddwyd i'r bobl nac ar forâl y staff gofal. Mae'r cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod y rheolwr wedi bod yn ymdrin â'r mater a nodwyd o drafodaethau â'r staff gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Gwnaethant ddisgrifio'r rheolwr fel *“Very good”* ac *“Approachable”*. Dengys cofnodion hyfforddiant y staff fod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar-lein ac wyneb yn wyneb ar gael i'r staff gofal. Gwnaethant ganmol ansawdd a nifer y cyrsiau hyfforddi, gan nodi eu bod yn dda ac yn gwneud iddynt *“Think about things in my job”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth lunio cynllun ar gyfer yr unigolyn sy'n nodi unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn. Rhaid darparu copi o'r cynllun personol i'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth. Os bydd rheswm dros beidio â gwneud hynny, rhaid cofnodi hynny. | Cyflawnwyd |
| 35 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod unigolyn wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â phob un o'r materion a ddynodir yn Rhan 1 o Atodlen 3. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael yn y gwasanaeth i reoleiddiwr y gwasanaeth ei harchwilio. | Cyflawnwyd |
| 36 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n briodol. | Cyflawnwyd |
| 19 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ddarparu canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau eirioli a'r wybodaeth sydd ar gael, fel y dynodir yn y canllawiau statudol. | Cyflawnwyd |
| 27 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion. | Cyflawnwyd |
| 57 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a'u lleihau i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/03/2024